OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 434 (Cy.45)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio 2005

Wedi'u gwneud	- -	*2 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6 a 138 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio) 2005, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn y gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002(**3**) ac mae cyfeiriad at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Prif Reoliadau sy'n dwyn y Rhif hwnnw.

Diwygio'r Prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 3(1) —

(a) ym mharagraffau (i) a (ii) o'r diffiniad o "cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd" yn lle'r geiriau "ym mhrofion y CC" rhodder y geiriau "mewn asesiadau gan athrawon";

(b) yn y diffiniad o "lefel 4" a "lefel 5" yn lle'r geiriau "profion y CC" rhodder y geiriau "asesiadau gan athrawon"; ac

(c) rhodder ar ôl y diffiniad o "anghenion addysgol arbennig" y canlynol —

"ystyr "asesiadau gan athrawon" ("*teacher assessment*") yw asesiadau o ddisgyblion a wneir gan athrawon er mwyn penderfynu lefel y cyrhaeddiad y maent wedi'i chyflawni yn y Gymraeg, y Saesneg, gwyddoniaeth neu fathemateg, ac y gwneir darpariaeth asesu ar eu cyfer gan orchmynion neu o dan orchmynion

(**1**) 1998 p.31. Ar gyfer ystyr "regulations" *gweler* adran 142.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2002/1187.